Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Y Mesur Lleoliaeth**

**Dyddiad:** **13 Rhagfyr 2010**

**Gan:** **Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio**
**Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

Cyflwynwyd y Mesur Lleoliaeth gerbron Tŷ'r Cyffredin ddydd Llun, 13 Rhagfyr. Nod Llywodraeth y DU yw datganoli rhagor o bwerau i gynghorau a chymdogaethau, a rhoi rheolaeth i gymunedau lleol dros benderfyniadau cynllunio a thai.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd y cyfle drwy'r Mesur hwn i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym meysydd refferenda'r dreth gyngor, rheoli datblygiadau a system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyn belled ag y caiff ei gymeradwyo gan Senedd y DU, bydd y Mesur yn trosglwyddo pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori, ac os yw'n briodol, datblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd hyn. Rydym wedi gosod Memorandwm Esboniadol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn amlinellu cefndir a chyd-destun y pwerau llunio mesurau rydym yn eu ceisio. Fodd bynnag, dyma'n fras yw'r pwerau rydym yn eu ceisio:

**Refferenda'r Dreth Gyngor**
Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud darpariaeth i ddiddymu'r ddeddfwriaeth gapio gyfredol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a gosod darpariaethau yn ei lle ar gyfer refferenda lleol ar gynnydd yn y dreth gyngor

yn y Mesur Lleoliaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn y dylai fod rôl gryfach i ddinasyddion Cymru o ran penderfynu ar y dreth gyngor flynyddol, ac am ystyried ymhellach yr opsiwn gorau i Gymru o ran cadw rheolaeth ar gynnydd gormodol yn y dreth gyngor a chynnal refferenda.

Felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio pwerau o dan y Mesur i’w galluogi i ddeddfu ar gyfer dilyn y broses o ran diffinio egwyddorion yr hyn sy’n ormodol, amseru proses unrhyw refferendwm, gweithdrefn a fformat y refferenda i’w cynnal a’r sancsiynau y byddai awdurdodau’n eu hwynebu o fethu dilyn y broses statudol.

**Rheoli Datblygiadau**

Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o’r broses o wneud cais cynllunio yng Nghymru gyda chymorth adroddiad annibynnol (Astudiaeth i Archwilio’r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru, Mehefin 2010). Daeth themâu allweddol i’r amlwg sy’n dangos lle mae angen newid, gan gynnwys lleihau ansicrwydd ac oedi, yr angen i wneud penderfyniadau cynllunio ar y lefel briodol a’r angen i awdurdodau cynllunio lleol fod yn fwy ymatebol drwy rannu adnoddau arbenigedd fwy drwy weithio’n well ar draws ffiniau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ceisio pwerau o dan y Mesur yn y meysydd hyn a meysydd cysylltiedig er mwyn gallu datblygu’i pholisi ar yr adeg briodol.

**System Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai**

Mae’r Mesur Lleoliaeth yn gwneud darpariaethau i ddiwygio System Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae’r system hon yn gosod rheolau ar gyfer darparu cymhorthdal i’r cyfrif Refeniw Tai neilltuedig y mae’n ofynnol i awdurdodau ei gadw os oes ganddynt stoc tai.

Mae’r Mesur yn darparu ar gyfer diddymu System Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn Lloegr ar sail ailddosbarthu’r ddyled gyffredinol. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion a thrafodaeth fanwl gyda llywodraeth leol yn Lloegr.

Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad o’r trefniadau hyn yng Nghymru, gyda chymorth llywodraeth leol, i nodi’r opsiynau ar gyfer diwygio. Mae System Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yn berthnasol i bob awdurdod lleol â stoc tai, ac yng Nghymru mae pob awdurdod mewn sefyllfa cymhorthdal negyddol. Mae hyn yn golygu y caiff tua £78m ei gasglu oddi wrth awdurdodau lleol Cymru yn 2010/11 a’i drosglwyddo i Drysorlys Ei Mawrhydi fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae hwn yn fater sydd o bryder mawr i Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nid oes modd penderfynu ar y ffordd ymlaen nes i Lywodraeth y Cynulliad drafod a chytuno ar setliad ariannol diwygiedig a chynhwysfawr gyda’r Trysorlys. Bydd pwerau o dan y Mesur yn galluogi deddfwriaeth sy’n briodol i Gymru ac yn seiliedig ar ymgynghori â llywodraeth lleol yng Nghymru i’w chyflwyno os oes angen ac ar yr adeg briodol.

Mae’r Mesur a’r nodiadau esboniadol cysylltiedig i’w gweld yn:
http://services.parliament.uk/bills/2010-11/localism.html

Os dymuna Aelodau’r Cynulliad bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sy’n arwain ar y mesur hwn, yn hapus i wneud datganiad llafar ar y cyfle cyntaf yn y sesiwn newydd.